# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1456(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog

**At Glyn Davies:**

Yn fy sesiwn Cwestiynau Llafar ar 4 Ebrill, addewais roi ichi ffeithiau a ffigyrau ynghylch y toriadau mewn taliadau presgripsiwn.

Tua 88% o'r holl bresgripsiynau a weinyddir sydd yn esempt rhag taliadau ar hyn o bryd [93% o gynnwys tystysgrifau rhagdalu]. Mae tua 50% o'r boblogaeth yn esempt rhag talu oherwydd oedran, cyflwr meddygol neu incwm.

Mae'r refeniw a ddaw o daliadau presgripsiwn yn golygu llai na 5% o'r cyfanswm am gyffuriau rhagnodedig. Er mwyn cymharu, mae'r cynnydd yn y bil cyffuriau yn gyffredinol eleni yn ddwywaith hynny.

Ar gyfer 2006-07 rhagwelir y bydd yr incwm a gollir oherwydd y toriadau mewn taliadau presgripsiwn yn £16.1 miliwn.

Gydag amser , gobeithiwn y bydd iechyd y bobl nad ydynt bellach yn gorfod dethol a dewis eu meddyginiaethau yn ôl yr hyn y gallant ei fforddio, yn gwella.

Hyderaf fod yr eglurhad uchod yn rhoi ichi'r deunydd yr oeddech yn ei geisio.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1442(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog

**At Mick Bates:**

Yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 4 Ebrill codasoch gwestiwn ynghylch sut y byddwn yn gweithredu i sicrhau bod Cymru'n derbyn cyfran deg o'r Rhaglen Adeiladu Carbon Isel (LCBP) i gynorthwyo effeithlonrwydd ynni a microgynhyrchu drwy Gymru.

Mae'r Adran Masnach a Diwydiant wedi datgan yn ddiweddar y bydd Rhaglen Adeiladu Carbon Isel yn gweithredu dros dair blynedd gyda £80 miliwn o arian grantiau ar gael. Rhaglen i'r DU ydyw ac nid i Loegr yn unig. Nid yw fformiwla Barnett yn gymwys yn achos rhaglenni'r DU.

Un o nodweddion pwysicaf y ddogfen Map Llwybr Ynni yw annog mwy o ddatblygu a defnyddio ar ficrogynhyrchu yng Nghymru. Hybir hyn hefyd drwy gyhoeddi'n ddiweddar y ddogfen ddrafft ar gyfer ymgynghori, Cynllun Gweithredu Microgynhyrchu i Gymru. Mae hon yn amlygu'r cyfleoedd a ddaw yn sgil microgynhyrchu ac yn nodi'r Rhaglen Adeiladu Carbon Isel fel un math o gymorth sydd ar gael.

Bydd perchnogion tai a sefydliadau yng Nghymru yn gallu gwneud cais am yr arian hwn ac mae swyddogion a sefydliadau pwysig yng Nghymru wedi dechrau trafod prosiectau posibl yn barod. Rydym yn awyddus i hybu ceisiadau uchel eu hansawdd o Gymru a bydd swyddogion yn monitro'r sefyllfa'n ofalus. Pan fydd manylion ynghylch y broses ymgeisio a'r meini prawf ar eu ffurf derfynol gan yr Adran Masnach a Diwydiant, byddwn ni'n eu gwneud yn hysbys yn ddi-oed.

Rwyf wedi ysgrifennu at Janet Davies gyda'r un wybodaeth.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1442(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog**

**At Janet Davies:**

Yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 4 Ebrill codasoch gwestiwn ynghylch sut y byddwn yn gweithredu i sicrhau bod Cymru'n derbyn cyfran deg o'r Rhaglen Adeiladu Carbon Isel (LCBP) i gynorthwyo effeithlonrwydd ynni a microgynhyrchu drwy Gymru.

Mae'r Adran Masnach a Diwydiant wedi datgan yn ddiweddar y bydd Rhaglen Adeiladu Carbon Isel yn gweithredu dros dair blynedd gyda £80 miliwn o arian grantiau ar gael. Rhaglen i'r DU ydyw ac nid i Loegr yn unig. Nid yw fformiwla Barnett yn gymwys yn achos rhaglenni'r DU.

Un o nodweddion pwysicaf y ddogfen Map Llwybr Ynni yw annog mwy o ddatblygu a defnyddio ar ficrogynhyrchu yng Nghymru. Hybir hyn hefyd drwy gyhoeddi'n ddiweddar y ddogfen ddrafft ar gyfer ymgynghori, Cynllun Gweithredu
Microgynhyrchu i Gymru. Mae hon yn amlygu'r cyfleoedd a ddaw yn sgil microgynhyrchu ac yn nodi'r Rhaglen Adeiladu Carbon Isel fel un math o gymorth sydd ar gael.

Bydd perchnogion tai a sefydliadau yng Nghymru yn gallu gwneud cais am yr arian hwn ac mae swyddogion a sefydliadau pwysig yng Nghymru wedi dechrau trafod prosiectau posibl yn barod. Rydym yn awyddus i hybu ceisiadau uchel eu hansawdd o Gymru a bydd swyddogion yn monitro'r sefyllfa'n ofalus. Pan fydd manylion ynghylch y broses ymgeisio a'r meini prawf ar eu ffurf derfynol gan yr Adran Masnach a Diwydiant, byddwn ni'n eu gwneud yn hysbys yn ddi-oed.

Rwyf wedi ysgrifennu at Mick Bates gyda'r un wybodaeth.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1442(FM), a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ar 11 Mai 2006**

**At Brynle Williams:**

Yn ystod y Cwestiynau i'r Prif Weinidog ddydd Mawrth 4 Ebrill, dywedais y byddwn yn gwneud ymholiadau ynghylch cyflwyniad Cyngor Bwrdeistref Conwy o ad-daliad treth gyngor i ddeiliaid tai a oedd wedi gwella eu heffeithlonrwydd ynni.

Rwyf yn falch o weld bod Cyngor Sir Conwy yn gweithio i hyrwyddo effeithlonrwydd ynni yn y Fwrdeistref Sirol a'u bod wedi llwyddo i sicrhau arian gan Nwy Prydain trwy eu rhaglen Ymrwymiad Effeithlonrwydd Ynni (EEC). Deallaf fod yr ad-daliad y dreth gyngor ar gael yn unig i aelwydydd sy'n manteisio ar inswleiddio waliau ceudod wedi'i ddisgowntio gan gynllun EEC Nwy Prydain ac felly mae'r cynllun yn ymddangos i fod wedi'i anelu yn bennaf at y rhai sy'n 'gallu talu'.

Blaenoriaeth Llywodraeth y Cynulliad, fodd bynnag, yw i helpu'r rhai sydd mewn tlodi tanwydd. Yr aelwydydd sy'n disgyn i'r categori hwn yn aml yw rhai o aelodau mwyaf agored i niwed ein cymunedau. Mae'r aelwydydd hyn yn gallu cael mynediad at fesurau effeithlonrwydd ynni yn rhad ac am ddim trwy raglenni Llywodraeth y Cynulliad, megis y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref, neu, mewn gwirionedd, gynllun EEC unrhyw gyflenwr ynni. Nid yw ad-daliadau treth gyngor yn berthnasol i'r cynlluniau hyn gan na fydd ymgeiswyr cymwys wedi gorfod talu neu gyfrannu tuag at gostau'r mesurau.

Serch hynny, mae unrhyw fenter sy’n ysgogi’r galw am fesurau effeithlonrwydd ynni, ac sy’n annog pobl i fanteisio arnynt, i’w groesawu.